



<i>I:</i>	Kate Evan-Hughes, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Benfro
<i>Copi i:</i>	Gweler rhestr copïau ar y diwedd
<i>Oddi wrth:</i>	Helen Mercer, Prif Arolygydd Cynorthwyol (Cyfiawnder Ieuenctid)
<i>Dyddiad cyhoeddi:</i>	3 Mehefin 2015

## **Adroddiad o Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) o waith troseddu ieuenctid yn Sir Benfro**

Cynhaliwyd yr arolygiad rhwng 27-29 Ebrill 2015 fel rhan o'n rhaglen arolygu gwaith troseddu ieuenctid. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Bydd copi'n cael ei ddarparu i arolygiaethau partner i lywio eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB).

### **Cyd-destun**

Nod y system cyfiawnder ieuenctid yw rhwystro troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae asesu a chynllunio o ansawdd da ar gychwyn y ddedfryd yn allweddol bwysig er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Archwiliasom 14 o achosion o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu'n ddiweddar ac a oedd yn cael eu goruchwylio gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Benfro. Lle'r oedd hynny'n bosibl, cyflawnwyd hyn ar y cyd â'r rheolwr achos dynodedig, a thrwy hynny'n cynnig cyfle dysgu i staff.

### **Crynodeb**

Y gyfradd aildroseddu<sup>1</sup> a gyhoeddwyd ar gyfer Sir Benfro oedd 25.4%. Roedd hyn yn sylweddol well na'r hyn oedd y flwyddyn flaenorol (31.1%) a chyfartaledd Cymru a Lloegr (36.1%).

Yn gyffredinol, canfuom fod gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i sicrhau bob plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â gofynion eu dedfryd yn waith da. Fodd bynnag, ers ein harolygiad diwethaf yn 2010, ac er gwaethaf cyflawni gwell cyfraddau aildroseddu, mae dirywiad wedi bod yn ansawdd y gwaith i leihau aildroseddu, amddiffyn y cyhoedd ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Roedd angen i oruchwyliaeth rheolwyr fod yn fwy cyson a thrwyadl. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn ddiweddar yn sgil nifer o newidiadau staff, sydd wedi effeithio ar ansawdd y gwaith a aseswyd gennym. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cydnabod y materion hyn ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hwy.

## **Sylwadau ar yr arolygiad yn Sir Benfro:**

### **1. Lleihau aildroseddu**

- 1.1. Adroddiadau cyn dedfrydu ac adroddiadau panel yw'r prif fodd y caiff llysoedd a phaneli dedfrydu, sy'n goruchwylio gorchmynion atgyweirio, eu cynghori ynghylch achosion

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 ar sail cyfraddau deuaidd aildroseddu ar ôl 12 mis ar gyfer cohort Ebrill 2012 – Mawrth 2013. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

troseddu a'r gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael ag ef. Roedd yr holl adroddiadau cyn dedfrydu yn y sampl o ansawdd da yn gyffredinol, ac roedd y plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu pob adroddiad cyn dedfrydu. Roedd yr adroddiadau panel hefyd o ansawdd da.

- 1.2. Roedd yr asesiad cychwynnol o debygolrwydd y plentyn neu berson ifanc o aildroseddu yn cael ei wneud yn dda yn y mwyafrif mawr o'r achosion yn y sampl. Roedd y mwyafrif yn drylwyr ac yn rhoi darlun llawn o amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc, megis sut y gallai trefniadau byw, amgylchiadau teuluol a phersonol a chamddefnyddio sylweddau effeithio ar aildroseddu.
- 1.3. Gall bywydau plant a phobl ifanc newid yn gyflym ac, o ganlyniad, mae angen adolygu asesiadau drwy gydol y ddedfryd. Canfuom fod adolygiadau o asesiadau cychwynnol yn ddigonol mewn ychydig dros hanner yr achosion a samplwyd. Lle'r oedd bylchau, roedd hynny oherwydd nad oedd adolygiadau wedi cael eu cyflawni fel roedd yn ofynnol, nad oeddent yn amserol, neu oherwydd eu bod yn gopiau o asesiad blaenorol, heb gael ei ddiweddarau'n ddigonol.
- 1.4. Roedd angen gwella cynlluniau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu ac roeddent yn annigonol mewn 6 o'r 14 o achosion yn y sampl. Mewn tri achos, nid oedd cynlluniau wedi cael eu gwneud o gwbl, ac mewn eraill nid oedd yr amcanion yn glir ac nid oeddent yn rhoi strwythur i'r gwaith yr oedd angen ei gyflawni. Mewn achosion gorchmynion atgyfeirio, polisi'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid yw bod y contract ei hun yn ffurfio'r cynllun. Roedd yr amcanion wedi eu hysgrifennu mewn termau cyffredinol iawn ac roedd angen iddynt fod yn fwy penodol, esbonio'r camau i'w cymryd, neu'r newidiadau y mae angen i'r plentyn neu berson ifanc ei wneud, i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu.
- 1.5. Roedd lle i wella hefyd wrth adolygu cynlluniau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Mewn hanner yn unig o'r achosion yr oedd adolygiadau cynlluniau wedi eu cwblhau'n ddigon da.

## **2. Amddiffyn y cyhoedd**

- 2.1. Disgwyliwn weld asesiad trylwyr o'r risg o niwed y mae plentyn neu berson ifanc yn ei achosi i eraill. Dylai hyn gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys ymddygiad troseddol yn y gorffennol, ac effaith ar ddiodefwyr. Canfuom fod hyn wedi cael ei wneud yn dda mewn tri chwarter o'r achosion yn y sampl. Lle nad oedd wedi cael ei wneud yn dda, roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd asesiad o risg o niwed wedi cael ei gyflawni, neu na roddwyd ystyriaeth ddigonol i ddiodefwyr.
- 2.2. Ar ôl asesu'r risgiau, dylai fod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i'w rheoli. Nid oedd hyn wedi cael ei wneud yn ddigon da mewn 7 o'r 11 o achosion perthnasol. Mewn pedwar achos ni chwblhawyd y cynllun. Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch yr angen am gynlluniau rheoli risg mewn achosion risg canolig o niwed.
- 2.3. Roedd yr asesiad risg o niwed i eraill wedi cael ei adolygu'n ddigon da mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol. Lle nad oeddent, roedd hyn oherwydd bod adolygiadau naill ai heb gael eu cyflawni yn ôl y gofyn, neu nad oedd adolygiadau yn amserol. Roedd angen rhoi mwy o sylw hefyd i adolygu cynlluniau i reoli risg o niwed.
- 2.4. Roedd angen rhoi mwy o sylw weithiau i'r risg o niwed i ddiodefwyr adnabyddadwy, gan sicrhau bod yr asesu a'r cynllunio'n adlewyrchu pryderon diodefwyr yn ddigonol.
- 2.5. Roedd angen gwella goruchwyliaeth rheolwyr i sicrhau ansawdd gwaith risg o niwed. Roedd yn effeithiol mewn llai na hanner o'r achosion perthnasol, yn bennaf am na roddwyd sylw i ddiffygion pwysig mewn asesu a chynllunio.

### 3. Amddiffyn y plentyn neu berson ifanc

- 3.1. Gall plant a phobl ifanc fod mewn perygl o gael eu niweidio gan eraill neu o ganlyniad i'w hymddygiad eu hunain. Gall hyn fod trwy osod eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus neu rai a allai fod yn niweidiol. Rôl y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid yw gweithio gydag eraill i helpu eu hamddiffyn. Roedd asesu cychwynnol diogelu a bregusrwydd wedi cael ei wneud yn ddigon da yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd yn bleser gweld bod gan reolwyr achos ddealltwriaeth dda o faterion diogelu a bregusrwydd. Mewn un enghraifft dda nododd arolygydd: *"Roedd gan y rheolwr achos bryder ynghylch camfanteisio rhywiol ar blant, a chyflawnodd asesiad, a ysgogodd atgyfeiriad at y Tim Asesu Gofal Plant. Galwyd cyfarfod strategaeth a pharatowyd cynllun gweithredu a diogelwch cynhwysfawr."*
- 3.2. Mae anghenion diogelu plant a phobl ifanc yn newid dros amser ac mae angen eu hadolygu'n barhaus. Roedd adolygiadau boddhaol o asesiadau diogelu a bregusrwydd wedi cael eu cwblhau mewn mwy na dau draean o'r achosion yn y sampl. O'r gweddill, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod adolygiadau'n gopi o'r asesiad blaenorol, heb gael ei ddiweddarau'n ddigonol.
- 3.3. Roedd cynlluniau addas yn cael eu rhoi ar waith ar gychwyn y ddedfryd i reoli materion diogelu a bregusrwydd mewn ychydig dros ddau draean o achosion. Lle'r oedd bylchau, roedd hyn oherwydd nad oedd cynlluniau wedi cael eu cwblhau, neu nad oeddent yn cysylltu â chynlluniau eraill, er enghraifft, gofal cymdeithasol. Roedd bron i hanner y cynlluniau heb gael eu hadolygu'n ddigon da mewn achosion perthnasol. Mewn tri achos ni chyflawnwyd adolygiadau pan oedd eu hangen.
- 3.4. Roedd angen i oruchwyliaeth rheolwyr wrth sicrhau ansawdd gwaith diogelu a bregusrwydd fod yn fwy trylwyr. Canfuom ei fod yn effeithiol mewn llai na hanner o'r achosion perthnasol. Lle nad oedd yn effeithiol, roedd hyn yn bennaf oherwydd na roddwyd sylw i ddiffygion pwysig mewn asesu a chynllunio. Mae'r materion hyn yr un fath â'r rheini a adnabuwyd mewn goruchwyllo gwaith risg o niwed.

### 4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

- 4.1. Hwn yw'r maes gwaith cryfaf a ganfuom yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuentid Sir Benfro. Disgwyliwn weld bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid yn gwneud yr hyn a all i helpu plant a phobl ifanc i gwblau eu dedfrydau'n llwyddiannus. Mae hyn yn golygu eu cynnwys hwy a'u rhieni/gofalwyr yn y prosesau asesu a chynllunio, adnabod rhwystrau i gydweithredu a mynd i'r afael â hwy, a rhoi mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu dedfryd. Mewn un enghraifft dda, nododd arolygydd: *"Mae'r rheolwr achos wedi adolygu'r holl asesiadau a chynlluniau'n drylwyr ar ôl panel tramgwydd diweddar, ac mae wedi diweddarau'r panel gorchymyn atgyfeirio yn effeithiol gyda'r holl gwybodaeth ddiweddar, fel y gallant gynorthwyo Martin i gydymffurfio."*
- 4.2. Roedd graddau uchel o gyd-drafod yn y mwyafrif o achosion yn y sampl rhwng rheolwyr achos, plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr wrth gyflawni'r asesiad cychwynnol, ac ym mhob adroddiad cyn dedfrydu. Fodd bynnag, nid oedd y cyd-drafod cystal o safbwynt y broses gynllunio. Mae'n bwysig fod y newidiadau sydd angen i blant a phobl ifanc eu gwneud yn glir iddynt, eu bod yn teimlo'n rhan o gynllun eu dedfryd ac yn ei ddeall, ac yn gallu cyfrannu at ei gynnwys.
- 4.3. Yn y mwyafrif mawr o achosion, roedd sylw wedi cael ei roi i ddiwallu anghenion amrywiol y plentyn neu berson ifanc ac i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gymryd rhan yn yr asesiad cychwynnol. Fodd bynnag, nid oedd hyn mor wir o safbwynt cynlluniau cychwynnol, lle nad oedd ond hanner y cynlluniau'n mynd i'r afael yn ddigonol â rhwystrau i gymryd rhan a ffactorau amrywiaeth. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad

oedd y cynllun yn mynd i'r afael â rhwystrau a oedd wedi cael eu hadnabod trwy'r asesiad.

- 4.4. Canfuom fod y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid wedi rhoi sylw digonol i ganlyniadau iechyd a lles y mwyafrif mawr o blant a phobl ifanc o dan eu goruchwyliaeth.
- 4.5. Roedd yn bleser gweld bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid wedi ymateb yn addas i blant a phobl ifanc nad oedd yn cydymffurfio â gofynion eu dedfryd ym mhob achos perthnasol ond un, er enghraifft, trwy gyflwyno llythyrau rhybudd ffurfiol neu weithdrefnau tramgwyddo.

### **Rheolaeth weithredol**

Canfuom fod gan staff wybodaeth gadarn o arferion effeithiol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, ynghyd â dealltwriaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli risg o niwed a diogelu. Roedd y staff yn gadarnhaol ynghylch goruchwyliaeth rheolwyr o waith risg o niwed a diogelu ac roedd y mwyafrif o'r staff yn siarad yn gadarnhaol ynghylch eu rheolwyr. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, canfuom dystiolaeth i awgrymu nad oedd goruchwyliaeth rheolwyr bob amser yn effeithiol a mynegodd rhai o'r staff y byddent yn croesawu help mwy gweithredol i wella ansawdd eu gwaith.

Fe wnaeth rheolwyr achos adrodd darlun cymysg o safbwynt y graddau yr oedd eu hanghenion hyfforddi a datblygu sgiliau'n cael eu diwallu. Teimlai lleiafrif eu bod wedi cael eu gadael i ddysgu wrth wneud eu gwaith oherwydd yr holl newidiadau staffio a oedd wedi digwydd, a byddent yn croesawu mwy o hyfforddiant. Er enghraifft, ynglŷn â'r system electronig i reoli achosion. Bwlch a nodwyd gan staff oedd hyfforddiant mewn adnabod ac ymateb i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd yn galondid clywed bod staff yn gallu adnabod y ffactorau risg a allai ddangos camfanteisio rhywiol ar blant, er nad oedd prosesau ar gyfer sgrinio, atgyfeirio ac asesu bob amser yn cael eu cwblhau yn brydlon, na'r gwaith dilynol yn cael ei wneud.

### **Cryfderau allweddol**

- Roedd yr adroddiadau cyn dedfrydu o safon dda ac roedd asesiadau cychwynnol o'r tebygolrwydd o aildroseddu yn drylwyr ar y cyfan.
- Roedd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn dda mewn adroddiadau cyn dedfrydu ac asesiadau cychwynnol.
- Roedd cymorth emosiynol ac iechyd meddwl ar gael yn hawdd i blant a phobl ifanc.
- Roedd gan reolwyr achos wybodaeth ymarferol dda o faterion diogelu a bregusrwydd, a dealltwriaeth o risgiau camfanteisio rhywiol ar blant.
- Roedd staff yn gweithio'n dda gyda phlant a phobl ifanc wrth sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu dedfryd.

### **Meysydd lle mae angen gwelliant**

- Dylai goruchwyliaeth rheolwyr fod yn fwy cyson a thrwyadl er mwyn sicrhau ansawdd a phrydlondeb gwaith risg o niwed, diogelu a bregusrwydd, fel bod y cyhoedd a phlant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn.
- Mae angen i gynlluniau dedfrydau fod yn gliriach ac yn fwy penodol i alluogi'r plentyn neu berson ifanc i ddeall y newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud, neu gamau i'w cymryd i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu.
- Mae angen i asesiadau a chynlluniau gael eu hadolygu'n drylwyr ac mewn ffordd fwy amserol, er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau ym mywydau plant a phobl ifanc.
- Mae angen gwneud mwy i reoli'r risg o niwed i ddiodefwyr dynodedig.

- Dylid osgoi newid rheolwyr achos lle bynnag mae hynny'n bosibl, er mwyn cynnig parhad o gymorth i'r plentyn neu berson ifanc.

Rydym yn ddiolchgar am y gymorth a dderbyniasom gan staff yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid i hwyluso'r arolygiad hwn a chydweithio ynddo. Byddwch cystal ag anfon ein diolchiadau ymlaen, a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ganfyddiadau'r arolygiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch yr arolygiad cysylltwch â'r arolygydd arweiniol, sef Sue McGrath. Gellir cysylltu â hi ar [susan.mcgrath@hmiprobation.gsi.gov.uk](mailto:susan.mcgrath@hmiprobation.gsi.gov.uk) neu ar 07757 848458.

Copi i:

Rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuentid	<i>Steve Davis</i>
Arweinydd y Cyngor Sir	<i>Cyng. James Adams</i>
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	<i>Kate Evan-Hughes</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Wasanaethau Plant	<i>Sue Perkins</i>
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys	<i>Christopher Salmon</i>
Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant	<i>Jake Morgan</i>
Cadeirydd y Fainc Llys Ieuentid	<i>Russell Evans</i>
Pennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yng Nghymru	<i>Dusty Kennedy</i>
Pennaeth Goruchwyliaeth a Chymorth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yng Nghymru	<i>Sarah Cooper</i>
Staff cyswllt y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid	<i>Malcolm Potter, Paula Williams, Linda Paris, Julie Fox</i>
Swyddfa'r Wasg y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid	<i>Zena Fernandes, Adrian Stretch</i>
Estyn	<i>Alun Connick, Linda Howells</i>
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<i>Nigel Brown, Bobbie Jones</i>
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	<i>Robin Bradfield</i>
Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi	<i>Paul Eveleigh</i>

Nodyn 1: Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn darparu sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith gyda'r rheini sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

Nodyn 2: Rydym yn casglu tystiolaeth i'w gymharu â meini prawf sgrinio ansawdd byr, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi - <http://www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation>.

Nodyn 3: I ofyn am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch ag adran Gyfathrebu Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar [communications@hmiprobation.gsi.gov.uk](mailto:communications@hmiprobation.gsi.gov.uk) neu ar 0161 240 5336.